# Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

## Cynnig Heb Ddyddiad Trafod a Gyflwynwyd ar 20/07/01

**NNDM775 Owen John Thomas (South Wales Central);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu cyfarwyddo Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd i ddod a deddfwriaeth isradd ger bron o dan adran 62 a/neu adran 74 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yr amcanion i'w cyflawni yw:

Sicrhau, mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol y gymuned bod impact datblygiad aneddol ar iaith y gymuned yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ffurfio cynigion ar gyfer datblygu a'r broses o wneud penderfyniadau.